




# **NAM AR Y SYNHWYRAU**



## BETH MAE NAM AR Y SYNHWYRAU'N EI OLYGU?

Termau ambarél yw 'Nam ar y synhwyrâu' neu 'golled synhwyradd' i ddisgrifio colled ar y synhwyrâu pellter, sef y golwg a'r clyw.

### ▼ Mae namau ar y synhwyrâu'n cwmpasu tri grŵp tra gwahanol:

-  Nam ar y golwg/ Nam gweledol – mae'n disgrifio rhywun sy'n hollol neu'n rhannol ddall.
-  Nam ar y clyw – er nad oes diffiniad ffurfiol o hyn, defnyddir y term yn aml i ddisgrifio pobl ag anallu rhannol neu lwyr i glywed.
-  Nam ar ddau synnwyr – defnyddir y termau colled ar ddau synnwyr, nam aml-synnwyr a byddar a dall yn rhyng-gyfnewidiol. Y diffiniad o nam ar ddau synnwyr a dderbynnir yn gyffredinol yw:


“ Pobl â gradd ddybryd o namau gweledol a chlywedol cyfunol, sy'n arwain at broblemau ynghylch cyfathrebu, hysbysu a symudedd ”


### SOURCE


(Think Dual Sensory Report, 1995) - [http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130107105354/http://www.dh.gov.uk/prod\\_consum\\_dh/gro ups/dh\\_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh\\_4014374.pdf](http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130107105354/http://www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/gro ups/dh_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh_4014374.pdf)




---

 Gall gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol helpu i oresgyn y rhwystrau a wynebir gan bobl â namau ar y synhwyrâu, gan gyfrannu at newid agweddau pobl a grymuso unigolion i fwynhau ansawdd bywyd da. Bydd buddion cymdeithasol ac economaidd ehangach yn deillio o hyn yn ogystal.

 Mae dyletswydd cyfreithiol ar bob awdurdod lleol i gadw cofrestr o bobl sydd ag anabledd corfforol neu golled synhwyrâidd “sylweddol a pharhaol” : sef anabledd sy’n effeithio’n arwyddocaol ar fywyd rhywun o ddydd i ddydd ac y disgwylir iddo barhau am fwy na 12 mis. Cedwir y gofrestr hon gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

 Nod y gofrestr yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwybod pwy yn eu hardal allai fanteisio ar wasanaethau sy’n bodoli i hyrwyddo lles pobl anabl. Gall helpu’r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd i gynllunio ar gyfer y dyfodol drwy roi amcangyfrif o nifer y bobl anabl yn yr ardal a’r namau sydd ganddynt.









 Mater o ddewis yw cofrestru. Mae lluo o bobl heb deimlo’r angen i gofrestru gan eu bod yn gallu cyrchu buddion, budd-daliadau a chonrsesiynau heb fynd trwy’r broses hon. Mae’n debyg felly bod y nifer sy’n ymddangos ar y gofrestr yn rhoi amcangyfrif rhy isel o’r nifer ag anableddau corfforol neu golled synhwyrâidd.

---





## PWY MAE'N EFFEITHIO ARNYNT, A SUT?

-  Heneiddio yn anad dim sy'n gyfrifol am golledion gweledol, clyweledol a deuol.
-  Amcangyfrifir bod gan 1 ym mhob 10 o bobl dros 65 oed ryw lefel o ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint (AMD).
-  Mae 1 o bob 5 o bobl 75 oed a hŷn yn byw gyda cholled weledol.
-  Mae gan fwy nag 11 filiwn o bobl yn y DU ryw fath o golled glywedol, sef un ym mhob chwech ar draws y boblogaeth.
-  Amcangyfrifir erbyn 2035 y bydd gan 15.6 miliwn o bobl yn y DU golled glywedol—sef un ym mhob pump o bobl.
-  Mae mwy na 45,000 o blant byddar yn y DU, ynghyd â llawer mwy sy'n dioddef colled glywedol dros dro.
-  Mae gan ryw 250,000 o bobl yn y DU golled glywedol a cholled weledol hefyd. Mae 220,000 ohonynt yn 70 oed neu'n hŷn.
-  Bydd pob un sydd â nam ar y synhwyrâu wedi byw gyda'i nam synhwyrdaidd personol mewn ffordd hollol wahanol i unigolion eraill sy'n cael eu cynnwys yn yr un categori. Nid yw dau unigolyn byth yn union yr un fath â'i gilydd, ac ni ddylai gwasanaethau gael eu darparu ar eu cyfer fel petaent fel ei gilydd.

<http://www.nhs.uk/conditions/Macular-degeneration/Pages/Introduction.aspx>

 <https://www.actiononhearingloss.org.uk/your-hearing/about-deafness-and-hearing-loss/statistics.aspx>



## — NAMAU AR Y GOLWG

-  Amcangyfrifir bod cynifer â 2 ym mhob 1,000 o blant yn dioddef colled ar y golwg.
-  Credir bod pobl â nam ar y golwg 1.7 gwaith yn debycach o gwmpo, ac 1.9 gwaith yn debycach o gwmpo'n aml. Gwariwyd 21% o gyfanswm y gost o drin cwmpau damweiniol yn y DU ar bobl â namau ar y golwg.
-  Mae smygwyr yn dyblu eu risg o ddatblygu dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint (AMD), anhwylder di-boen ar y llygaid sy'n niwlo'r golwg ac yn peri colled raddol ar y golwg canolog (yr hyn a welwch chi wrth edrych syth ymlaen). Mae smygwyr yn tueddu hefyd i ddatblygu'r anhwylder yn gynharach nag anysmygwyr. Gall smygu wneud problemau golwg sy'n gysylltiedig â diabetes yn waeth, a thybir hefyd bod cysylltiad rhwng smygu a datblygu pilennau ar y llygaid.
-  Mae gordewdra wedi cael ei gysylltu â sawl anhwylder ar y llygaid megis pilennau ac AMD. Mae cysylltiad cryf hefyd rhwng gordewdra a diabetes, a gwaethygiad yn nirwyriad y golwg mewn achosion o retinopat heg ddiabetig.
-  Mae'r risg o ddatblygu glawcoma gryn dipyn yn uwch ymhlith pobl o dras Affricanaidd ac Affricanaidd-Caribiaidd, ac mae eu risg o ddioddef AMD yn uwch hefyd. Mae risg pobl o dras Asiaidd o ddatblygu pilennau'n uwch. Mae risg uwch o ddioddef llygaid diabetig gan y grwpiau hyn.
-  Amcangyfrifir bod rhyw fath o drafferth weledol gan 60% o'r rhai sy'n goroesi strôc. Y broblem fwyaf cyffredin yw colled ar y maes gweledol; mae 30% o oroeswyr strôc yn dioddef hyn.
-  Gall pwysedd gwaed uwch heb ei reoli beri i lestri gwaed y llygad (retina) dynhau gan niweidio'r llygad ac achosi problemau i'r golwg.
-  Mae pobl hŷn sydd â cholled ar y golwg deirgwaith yn debycach bron o ddioddef iselder ysbryd na phobl sydd â golwg da.
-  Mae oedolion ag anabledau dysgu'n debycach o lawer na'r boblogaeth gyffredinol o ddioddef namau ar y golwg.

 <https://actionforblindpeople.org.uk/about-us/media-centre/key-statistics/>  
<http://www.nhs.uk/conditions/Macular-degeneration/Pages/Introduction.aspx>



**NIFER AMCANGYFRIFEDIG Y PLANT A PHOBL IFANC YM MAE'R GORLLEWIN SY'N HOLLLOL NEU'N RHANNOL DDALL (RNIB - 2015)**

Oedran	Hollol ddall	Rhannol ddall	Cyfanswm	Nifer dybiedig ag anghenion ychwanegol
0 - 16	49	147	196	97
17 - 25	31	96	127	-

**Nifer dybiedig ym Mae'r Gorllewin sy'n byw gyda cholled ar y golwg**

	2015	2020	2025	2030
Ysgafn	11,380	12,110	13,400	14,920
Cymedrol	3,940	4,690	5,190	5,780
Dybryd	2,350	2,360	2,690	3,070
Cyfanswm	17,670	19,160	21,280	23,770

Mae rhyw 1 ym mhob 4 o bobl hollol neu rannol ddall yn y DU o oedran gweithio mewn swyddi.

Amcangyfrifir bod nam ar y golwg o ryw fath gan 3,422 o bobl o oedran gweithio ym Mae'r Gorllewin.

<http://www.rnib.org.uk/knowledge-and-research-hub-key-information-and-statistics/sight-loss-data-tool>



Gan nad oes gofyniad i gofrestru anableddau, a chan nad yw rhai rhesymau hanesyddol dros gofrestru megis mynediad at wasanaethau/ budd-daliadau yn bod bellach, mae cofrestrau anableddau'n ffordd lai defnyddiol o fesur nifer y bobl mewn ardal sydd ag anabledd synhwyrdd.

Adroddir y cofrestrau bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru. Mae'r data isod yn dangos gwahanol newidiadau dros gyfnod ledled Bae'r Gorllewin. Ond mae'n debyg bod ffactorau lleol a dulliau cofnodi gwahanol yn cael effaith ar gywirdeb y niferoedd a gofrestrir.

2006-2007	2014-2015	2006-2007	2014-2015	2006-2007	2014-2015	2006-2007	2014-2015
Penybont		Castell-nedd Port Talbot		Abertawe		Bae'r Gorllewin	
373	263	420	364	355	532	1,148	1,159
97	106	123	132	67	160	287	398
8	17	8	11	64	30	80	58
1	3	-	1	8	2	9	6


<span style="display:inline-block; width:15px; height:15px; background-color:#4b0032; border:1px solid black;"></span> y bobl â nam ar y golwg sy'n 65 oed ac yn hŷn	<span style="display:inline-block; width:15px; height:15px; background-color:#c8328c; border:1px solid black;"></span> y bobl â nam ar y golwg sy'n 18-64 oed	<span style="display:inline-block; width:15px; height:15px; background-color:#333; border:1px solid black;"></span> y bobl â nam ar y golwg sy'n 5-17 oed	<span style="display:inline-block; width:15px; height:15px; background-color:#808080; border:1px solid black;"></span> y bobl â nam ar y golwg sydd dan 5 oed
--	---	---	---




## — NAMAU AR Y CLYW


 Mae amseriad gwahanol namau ar y clyw yn amrywio.


- ▶ Mae colled synhwyrdd gynhenid ar y clyw yn bresennol wrth i'r plentyn gael ei eni.
- ▶ Mae colled gaffael ar y clyw yn digwydd yn nes ymlaen, yn ystod plentyndod neu arddegau neu oedolaeth y claf. Gall ddigwydd yn sydyn neu'n raddol dros gyfnod


 Bydd babanod mewn risg o fethu â datblygu sgiliau iaith ac o aros ar lefel cyrhaeddiad addysgol isel os na chanfyddir namau sydd ar eu clyw.

 Credir bod mynychder namau ar y clyw yn uwch ymhlith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), yn enwedig mewn ymfudwyr mwy diweddar o wledydd sydd â lefelau imiwneiddio isel rhag anhwylderau megis y Frech Almaenig (rwbela).

 Mae cysylltiad rhwng ffactorau amgylcheddol a risg uwch o nam ar y clyw, mewn pobl sy'n gorfod dioddef synau uchel yn rheolaidd. Gall trawma uniongyrchol i'r pen achosi nam ar y clyw hefyd.

 Mae pobl â nam ar y clyw yn debyg iawn hefyd o ddiodeff problemau megis 'canu yn y glust' ac anhwylderau cydbwysedd, sy'n ffactorau risg ar gyfer cwmpo ac anafiadau damweiniol eraill.

 Mae pobl sy'n mynd yn fyddar yn sydyn oherwydd trawma neu haint yn debyg o ddiodeff trallod emosiynol a'i chael hi'n anodd i ymdopi â'r effaith negyddol sydyn ar eu hiechyd a'u lles.


 Gall pobl â nam ar y clyw fod ag anabledau neu anhwylderau hirdymor eraill hefyd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, megis gwynegon a phroblemau symudedd. Yn aml mae hyn yn golygu bod rhwystrau rhag cynhwysiant ac ymdeimlad o arwahanrwydd yn gwaethygu.

 <https://www.actiononhearingloss.org.uk/your-hearing/about-deafness-and-hearing-loss/statistics.aspx>






Rhagwelir y bydd nifer y plant sydd â namau ar y clyw yn cynyddu ychydig gydag amser, yn sgil y cynnydd ysgafn rhagamcanol yn nifer y bobl mewn grwpiau oedran iau yn ardal Bae'r Gorllewin.




Amcangyfrifir bod 4% o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru'n gwisgo cymhorthion clywed neu'n hollol fyddar. Mae cyfradd datblygu namau ar y clyw yn cynyddu'n aruthrol gydag oedran y claf. Pobl oedrannus yw mwyafrif llethol o'r rhai â nam ar y clyw. Gellir priodoli'r twf yn nifer yr oedolion y disgwylir iddynt ddiodeff nam ar y clyw i'r cynnydd yn y boblogaeth sy'n 65 oed ac yn hŷn.



## COLLED AR DDAU SYNNWYR


Gall y math yma o nam ar y synhwyrâu ddatblygu gydag amser (nam caffael) neu fod yn bresennol adeg geni'r claf (nam cynhenid).

### ▼ Nifer y bobl o bob oedran â nam dybryd ar y golwg a nam ar y clyw

	2006 2007	2007 2008	2008 2009	2009 2010	2010 2011	2011 2012	2012 2013	2013 2014	2014 2015
Penybont	58	63	55	60	55	45	49	44	39
Castell-nedd Port Talbot	57	60	71	71	65	65	67	68	70
Abertawe	50	50	72	77	71	65	65	105	108
Bae'r Gorllewin	165	173	198	208	191	175	181	217	217

Ar sail y ffigurau cofrestredig yn unig, mae mynychder namau ar y synhwyrâu'n ystadegol uwch ymhlith pobl dros 65 oed, ac mae hyn yn gyson â'r data isod. Ond mae'r ffigurau hyn yn dangos dim ond y rhai â nam dybryd ar y golwg (dall) a nam ar y clyw, nid y rhai â nam llai difrifol ar y golwg (rhannol ddall) ynghyd â nam ar y clyw.

### ▼ Nifer y bobl 65+ oed â nam dybryd ar y golwg a nam ar y clyw

	2006 2007	2007 2008	2008 2009	2009 2010	2010 2011	2011 2012	2012 2013	2013 2014	2014 2015
Penybont	52	57	52	53	48	38	45	40	35
Castell-nedd Port Talbot	49	54	65	65	57	60	61	61	61
Abertawe	43	48	64	69	61	56	56	86	90
Bae'r Gorllewin	144	159	181	187	166	154	162	187	186
















## PWY SY’N DERBYN CYMORTH/PA GYMORTH SYDD?

Mae bwloch yn yr wybodaeth am bobl 13 – 17 oed â nam ar y golwg. Ond mae astudiaeth o blant a phobl ifanc sy’n mynychu gwasanaethau arbenigol i hyrwyddo symudedd a sgiliau byw yn annibynnol (gwasanaethau cymhwyso) a gyhoeddwyd yn 2016 yn awgrymu fel a ganlyn:


▼ **Nifer y plant a phobl ifanc sy’n mynychu gwasanaethau cymhwyso**

	Plant a phobl ifanc â nam ar y golwg sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig	Plant a phobl ifanc â nam ar y golwg sydd heb Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig	Plant a phobl ifanc sydd wedi mynychu gwasanaethau cymhwyso yn y 6 mis diwethaf	Canran y plant a phobl ifanc sydd wedi cael hyfforddiant cymhwyso yn y 6 mis diwethaf
0 - 4	9	32	11	27%
5 - 11	69	81	37	25%
12 - 16	46	74	24	20%
17 - 18	11	2	2	15%
19 - 25	0	18	2	11%



-  Mae cymorth arbenigol ar gael trwy iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.
-  Mae gan bob awdurdod lleol Dîm Cymorth Synhwyrdd sy'n cynnig cymorth i blant ac oedolion, megis asesiadau ffwythiannol, sgiliau cyfathrebu, sgiliau ymarferol, cyngor ynghylch budd-daliadau, adsefydlu a chymhwysio. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyfarpar hefyd i alluogi pobl i fyw yn annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn cydweithio'n glòs â'r trydydd sector a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod pobl yn derbyn y cyngor a'r wybodaeth fwyaf priodol. Rhoddir y pwyslais ar ymyrryd yn gynnar i hybu annibyniaeth a chreu cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd neu ehangu'r rhai sydd gan y claf yn barod.
-  Addysg – athrawon synhwyrdd arbenigol a gweithwyr er lles y disgyblion.
-  Tîm 'Amser i Chi Eich Hun' PABM – tîm arobryn sy'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth am ofal iechyd a chyfathrebiad ar gael i gleifion sy'n fyddar, yn drwm eu clyw, yn rhannol neu'n hollol ddall neu'n dioddef nam ar ddau synnwyr.
-  Mae clinigau Clywedeg a Llygaid PABM yn darparu gwasanaethau asesu ac adsefydlu ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.
-  Mae nifer o wasanaethau yn y trydydd sector ar gyfer pobl â nam ar y synhwyrdd, megis: Cynhyrchiadau UCAN, grŵp drama ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n rhannol ddall rhwng 7 a 14 oed; Peithoniaid De Cymru, clwb nofio i blant â namau synhwyrdd neu anabledau corfforol, a Grŵp Cymorth i Bobl Fyddar a Dall Cymru.
-  ▼ Yr Ystafell Adnoddau yng Nghanolfan Adnoddau Trem Y Môr (Penybont ar Ogwr)
-  Dosbarthiadau Braille – cefnogir hyn gan aelodau o'r tîm, ond menter gydgyhyrchiol yw hi. Mae hwylusydd y dosbarth yn berson wedi ymddeol sy'n ddall ers cael ei geni, a oedd yn awyddus i gydrannu ei gwybodaeth ag eraill.
-  Asesiadau amgylchiadol yng nghyswllt cymhorthion a darparu cymhorthion – Cynhelir asesiadau mewn amgylchiadau tebyg i'r rhai yn amgylchiadau cartref y person.
-  Arddangos eitemau cyfarpar – e.e. ffonau, gwahanol gymhorthion ar gyfer byw o ddydd i ddydd a meddalwedd TG e.e. IPads a meddalwedd gyfrifiadurol. Sesiynau cymorth cymheiriaid e.e. cyflwyno gweithdai symudedd, gweithdy sgiliau cegin.






-  Mae Tîm Namau ar y Clyw hefyd ym Mhenybont sy'n cynnal grwpiau cymorth bob wythnos ar gyfer plant â namau ar y clyw a'u rhieni/ gofalwyr. Mae plant rhannol ddall yn mynychu sesiwn hefyd bob pythefnos.





## PETHAU Y DYWEDODD POBL EU BOD YN BWYSIG IDDYNT



### — GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

-  Hyfforddi mwy o bobl i gyfathrebu'n briodol – ni ddylid ystyried cyfathrebu'n broblem i'r defnyddiwr gwasanaethau yn unig. Archwilio ffyrdd o fanteisio'n ehangach ar dechnolegau newydd sy'n ymddangos gyda golwg ar wella cyfathrebiad
-  Addasu gwasanaethau'n well er mwyn cwrdd ag anghenion pobl â namau synhwyrdd
-  Gweithredu ar sail yr adborth a dderbynnir drwy ymgynghoriadau

### — YR AMGYLCHIADAU CORFFOROL

-  Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio i gwrdd ag anghenion pobl â namau ar y synhwyrdd – e.e. celfi stryd, manau croesi'r heol a safleoedd gwaith dros dro ar y stryd
-  Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod y system gludiant cyhoeddus yn cael ei haddasu'n briodol

### — ARFERION DA

-  Defnyddio sefydliadau arbenigol megis Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion i helpu i ddylunio gwasanaethau cyhoeddus hygyrch da
-  Dal i hyrwyddo rôl gweithwyr cymorth wrth helpu pobl i gyrchu gwasanaethau





## PA NEWIDIADAU Y MAE'N RHAI INNI GYNLLUNIO AR EU CYFER?



Dielio â lefelau cynyddol angen – Yn ôl y data, bydd rhaid inni gwrdd ag anghenion mwy o bobl ag ystod ehangach o broblemau, gan gynnwys rhai â nam ar y synhwyrâu ochr yn ochr ag anhwylderau cymhleth hirdymor eraill, a fydd yn gofyn lefelau uwch o gymorth. Pobl hŷn â dementia'n arbennig, a chymunedau BME a fydd angen trefniadau cyrchu gwasanaethau gwahanol efallai.



Delio ag adnoddau sy'n crebachu – Mae'r adnoddau ariannol sydd ar gael inni'n lleihau o flwyddyn i flwyddyn, a pharhau a fydd hyn. Gallwn greu canlyniadau gwell i bobl tra'n arbed drwy ddefnyddio gwasanaethau ar gyfer pawb yn well gan hybu a hyrwyddo mynediad atynt yn hytrach na dod â phobl yn ddi-angen i mewn i systemau gwasanaeth ffurfiol.



Cyflwyno model cymorth newydd – Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) wedi ysgogi datblygiad model cymorth newydd i bobl ag anghenion o ran gofal a chymorth. Disgwylwn weld y modd o gynorthwyo pobl yn symud i ffwrdd o wasanaethau ffurfiol traddodiadol at opsiynau mwy ataliol sydd wedi'u lleoli yn y gymuned. Bydd ein trefniadau comisiynu'n mabwysiadu ffyrdd mwy cydgynhyrchiol o weithio, ac yn cael eu llywio gan y deilliannau sydd wedi cael eu cydgynhyrchu'n lleol.



Ni ddylid ystyried anghenion plant a phobl ifanc ar wahân. Dylid archwilio sut i barhau i ddatblygu llwybrau rhwng Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yng ngyswllt plant ag anghenion synhwyrdd, gan astudio eu heffaith ymhellach ac ystyried cynllunio gwydn ar gyfer y dyfodol a sut i baratoi pobl ifanc ar gyfer y gweithle. Ond mae angen cyflawni dadansoddiad pellach o gymhlethdod anghenion plant a phobl ifanc, gan fod y ffigurau'n dangos bod ganddynt fwy nag un cofrestriad fel rheol.











Nid oes data ar hyn o bryd ynghylch mynychder namau synhwyrdd ymhlith pobl ag anableddau dysgu, gan fod pobl ag anableddau dysgu'n cael eu cadw ar gofrestr wahanol. Dyma faes a esgeulusir yn aml.




Mae angen rhoi ystyriaeth i ddatblygu cynllun ynghylch anghenion a deilliannau pobl hŷn a phobl o oedran gweithio, gan mai dyma lle rydym yn gweld cynnydd cymesur yn nifer y cofrestradau.



- 
-  Mae'n hanfodol i bobl â namau ar y synhwyrâu allu cyrchu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt er mwyn iddynt ehangu eu lles a byw yn annibynnol.
  -  Mae angen gweithio rhagor ym maes ataliaeth – atal pobl rhag colli eu golwg neu eu clyw, ac atal cwmpau a derbyniadau brys i'r ysbyty ymhlith pobl hŷn â phroblemau golwg.
  -  Mae angen mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol pobl â namau ar y synhwyrâu drwy ganolbwyntio ar dair blaenoriaeth amlwg:
    -  Mynediad at ddewis gwell o wybodaeth, cyngor a chymorth yn eu gofal a'u cymorth, megis taliadau uniongyrchol a thechnoleg gynorthwyol, yn ogystal â chefnogaeth i ofalwyr, a sicrhau bod cymhorthion cyfathrebu megis dolenni clywed ar gael ym mhob prif fan cyrchu cyhoeddus gan gynnwys meddygfeydd teulu ac ysbytai.
    -  Creu cymunedau sy'n gynhwysol ac yn hygyrch i bobl â namau ar y synhwyrâu. Hybu ymwybyddiaeth broffesiynol a chyhoeddus o'r angen am systemau goleuo gwell.
    -  Dylai bwriadau comisiynu'r dyfodol gael eu datblygu trwy gydgyhyrchu ac ymgysylltu, a'u gwneud yn amlwg wedyn wrth i Fae'r Gorllewin gyhoeddi 'cynllun synhwyrâidd' â'r nod o wella deilliannau iechyd a lles ymhlith y boblogaeth leol. Dylai hyn gynnwys ymgyrch iechyd cyhoeddus, ymyriadau dros wella lles a dynesiadau ataliol at namau ar y synhwyrâu.
  -  Mae angen codi ymwybyddiaeth o'r effaith y gall namau synhwyrâidd eu cael ar iechyd meddwl.
  -  Rhaid i unrhyw gynllun synhwyrâidd ystyried effaith colli dau synnwyr a chwmpasu dyletswydd yr awdurdod lleol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 i bobl fyddar a dall, ar y cyd â strategaeth cyfathrebu, gan gynnig gwybodaeth a chyngor i bobl â namau synhwyrâidd, gwybodaeth am y Gymraeg, fformatiau amgen a hybu technoleg gwybodaeth a sut i'w hwyluso ymhellach.
- 





# **WESTERN BAY**

## **POPULATION ASSESSMENT REPORT**

[www.westernbay.org.uk](http://www.westernbay.org.uk)